

## 'Porn Mawr' – dinoethi'r anghenfil



Ar 14 Gorffennaf eleni cyhoeddwyd adroddiad gan yr elusen CEASE (Campaign to End All Sexual Exploitation), sy'n ceisio dinoethi'r hyn a elwir yn 'Porn Mawr' (Big Porn). Mae'r diwydiant pornograffiaeth wedi datblygu dros yr ugain mlynedd diwethaf hyn drwy ymdrechion cwmnïau technolegol enfawr sy'n llwyddo, yn gyffredinol, i osgoi cael eu harchwilio a'u rheoli. Yn ôl yr adroddiad, mae cwmnïau Porn Mawr wedi gwneud elw enfawr drwy'r llwyfannau pornograffiaeth ar-lein gan ddefnyddio deunydd fideo o drais rhywiol real, cam-drin rhywiol a gweithrediadau rhywiol heb ganiatâd. 'Os ydym yn ffael gweld y diwydiant pornograffiaeth fel ag y mae mewn gwirionedd, bydd yr ymdrechion i'w reoli'n methu. Daeth yr awr i ddinoethi Porn Mawr.' (Vanessa Morse, Prif Weithredwr CEASE)

### 1. Beth yw'r problem?

Mae ein plant a'n pobl ifanc yn wynebu llif diddiwedd o ddeunydd ar y gwefannau hyn sy'n normaleiddio trais rhywiol a syniadau dynon sy'n casáu merched. Un rheswm dros y twf hwn yn y diwydiant pornograffiaeth yw'r ffaith nad yw'n cael ei reoli, nac yn atebol mewn unrhyw ffordd. Elw sy'n gyrru'r anghenfil hwn, ac o ganlyniad dosberthir deunydd o drais rhywiol anghyfreithlon ar raddfa sydd y tu hwnt i'n dychymyg, heb atebolrwydd i unrhyw lywodraeth ar draws y byd.



Holman Hunt  
Tudalen 3

### 2. Beth yw maint y problem?

Yn ôl yr adroddiad, roedd mwy o draffig ar safleoedd pornograffiaeth ar y we yn 2020 nag ar safleoedd Twitter, Instagram, Netflix, Zoom, Pinterest, a LinkedIn i gyd gyda'i gilydd. Dywedodd Ofcom fod mwy wedi gwyllo pornograffiaeth yn ystod y pandemig nag oedd wedi gwyllo'r BBC. Mae gwerth y diwydiant pornograffiaeth tua \$97 biliwn, sy'n fwy na gwerth Hollywood. Yn wahanol i'r cewri tech, Facebook, Apple a Google, sy'n dod dan reolaeth gynyddol gan lywodraethau yn y blynyddoedd diweddar, mae Porn Mawr wedi llithro o dan y radar.

### 3. Beth yw barn pobl am y problem?

Yn ôl arolwg gan CEASE ym mis Mehefin 2021, mae'r rhan fwyaf o drigolion y Deyrnas Unedig yn cefnogi rheolau llymach i'r diwydiant pornograffiaeth.

Dyma'r ffigurau yn yr adroddiad:


80% yn cefnogi rheolau newydd, llymach ar bornograffiaeth;  
77% yn credu ei fod yn niweidiol i blentyn wyllo pornograffiaeth;  
74% yn meddwl y dylid gwahardd safleoedd pornograffiaeth rhag dangos deunydd fideo o drais rhywiol ac eithafol;  
64% o bobl rhwng 18 a 25 oed yn meddwl bod gwyllo pornograffiaeth yn niweidiol wrth feithrin perthynas ac agosatrwydd.

### 4. Beth nesa?

Yn ôl yr adroddiad, mae angen i'r llywodraeth fynd i'r afael â'r problem a chryfhau drafft y Mesur Diogelwch Ar-lein. Ceir tri argymhelliad yn yr arolwg ynglŷn â'r mesur hwn, a'r gobaith yw newid y mesur drafft ar frys er mwyn dileu'r deunydd niweidiol a diogelu plant rhag niwed. Nawr yw'r amser i weithredu. Dyma'r argymhellion:

- sicrhau prawf oedran ar bob safle pornograffiaeth, ar unwaith, gan

Nid gwyddoniaeth yw Genesis,  
Penodau 1 a 2  
Tudalen 4



ddefnyddio'r grym sydd eisoes mewn bodolaeth yn Neddf yr Economi Ddigidol 2017, a'i gryfhau wedyn â'r Mesur Diogelwch Ar-lein;

- cyflwyno mesuriadau er sicrhau bod llwyfannau pornograffiaeth naill ai'n dileu cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr (UGC) neu'n sicrhau mesurau cadarn ynglŷn â chaniatâd a phrawf oedran, gan sicrhau mai dim ond oedolion sydd wedi rhoi caniatâd sy'n ymddangos yn y deunydd pornograffig;
- ystyried gwefannau pornograffiaeth fel rhai sy'n cynnig gwasanaethau Categori 1, gyda Pholisïau Ymddygiad, a phenodi rheolwr i sicrhau cydymffurfio.

### 5. Beth amdanoch chi?

Ydych chi'n fodlon i'r anghenfil hwn lithro'n slei o dan radar eich cartref chi? Ydych chi am weithredu nawr i ddinoethi'r anghenfil, dylanwadu ar lywodraethau a diogelu dioddefwyr trais rhywiol a chenedlaethau o blant a phobl ifanc ar draws y byd? Gall un clic ar eich llygoden neu un tap ar eich i-Pad newid y byd er gwell. Ceir yr adroddiad llawn a manylion pellach am yr elusen CEASE ar: <https://cease.org.uk/expose-big-porn>.

Geraint Morse

Ffydd a Diwylliant  
Tudalen 7

## Lle i enaid gael llonydd

Oni bai am y cyfnod clo, mae'n debyg y byddwn wedi mynd â chi am daith i Gwmorthin neu Lawr-y-glyn yn y golofn hon. Mae'r ddau le yn dwyn atgofion o brofiadau arbennig a phobl arbennig gan mai yng Nghwmorthin y gwasgarwyd llwch fy rhieni ac ym mynwent Llawr-y-glyn, ynghanol tawelwch a mwynder Maldwyn, y mae Nain a Taid yn gorffwys. Mae i'r ddau le ryw dynfa, rhyw ddyhead a melyster mawr.

Ond dros y deunaw mis diwethaf bu rhaid chwilio'n nes adref am le i ymlonyddu ac ymdawelu, a dwi'n lwcus iawn o fod yn byw mewn ardal mor odidog o hardd. Mae o fewn y cyfyngder pum milltir ddigonedd o ddewis o lwybrau amrywiol i'w crwydro a'u mwynhau.

Drwy gydol y cyfnod clo cyntaf bûm yn cerdded i lawr i'r dref bob dydd i gael awyr iach – ac yn dilyn llwybr gwahanol yno ac yn ôl er mwyn cael amrywiaeth. Mae un llecyn i lawr 'lôn gas' (enw pobl Caernarfon am Lôn Santes Helen) – y tu ôl i'r gwaith nwy a'r gwaith trydan ac ar ymyl yr afon – sydd wedi dod yn gyrchfan ddyddiol imi ers hynny. Rhaid cerdded drwy'r maes parcio i gefn adeiladau swyddfeydd i gyrraedd yr afon, ac yn y dechrau roeddwn yn teimlo mod i'n tresmasu wrth wneud hynny – ond dwi bellach yn teimlo bod y lle'n rhan ohonof, bron!



Ambell waith mi fydd rhai o'r gweithwyr o'r swyddfa yn sefyllian yno'n cael smôc neu'n siarad ar eu ffonau symudol – ac mae cyfle i gael sgwrs efo nhw. Yn amlach na pheidio, does neb o gwmpas ond ambell grêyr glas a chrêyr gwyn, hwyaid a gwylanod – ac yn fwy diweddar dau alarch a bilidowcar. Ar ddechrau'r gwanwyn roedd yno wely blodau'n llawn o fylbiau cennin Pedr a thiwlips, ac roeddwn yn cael sbec arnynt bob dydd i'w gwyllo'n tyfu ac yn dod i'w blodau. Erbyn hyn, dim ond chwyn sydd yn y gwely blodau ond mi fydd y bylbiau'n dangos eu harddwch eto'r gwanwyn nesaf – ac wedi dyblu o ran eu nifer

hefyd, siŵr o fod. Rhyfedd meddwl am addewid y pridd!

Wrth fynd yno bob bore mae'r cwestiwn yn codi yn fy mhen: lle mae'r llanw? Mae'n brydferthach pan mae'r llanw'n uchel, ond mae yno fwy o adar pan mae'r mwd yn y golwg. Does yna'r un diwrnod yr un fath – mae gwedd wahanol i'r lle yn ôl y tywydd a'r golau. Drwy'r gaeaf roedd y coed noeth ar ochr draw'r afon yn edrych fel petaent wedi marw, a rhai ohonynt wedi syrthio – ond mae ffrwydrad y gwanwyn wedi peri rhyfeddod o'u gweld i gyd yn deilio o'r newydd. Mae'r gnozell yno'n gyson yn chwilio am ei phryd o dan y rhisgl.

Dim ond rhyw bum munud fydda i'n ei dreulio yno fel arfer – rhyw stop bach ar y ffordd i nôl bara neu i gael paned ydi o. Ond mae'r pum munud yna'n gyfle i arafu eto – i gilio o sŵn y traffig a rhuthr gwyllt y ffordd fawr ac i ddotio at brydferthwch ac amrywiaeth Duw ynghanol ei greadigaeth. Cymryd stoc, anadlu, diolch ac ymegnio ar gyfer beth bynnag fydd yn digwydd weddill y dydd.

Dwi'n gobeithio'n wir nad oes yna ormod o ddarllenwyr *Cenn@d* yn byw yng Nghaernarfon rhag i chi dyrru yno i darfu efo'ch clegar a'ch sŵn! Ond os gwela i chi yno, bydd yn braf cael sgwrs!

Anna Jane Evans  
Caernarfon



## Holman Hunt

Ydych chi wedi clywed yr enw Holman Hunt erioed? Er gwaetha'i enw Almaenaidd, Sais ydoedd a oedd yn byw rhwng 1827 ac 1910. Roedd yn un o sylfaenydd Brawdoliaeth y Cyn-Raffaeliaid, grŵp o arlunydd Seisnig oedd yn rhoi sylw arbennig i fanylion a lliwiau mewn lluniau.

Daeth Hunt yn enwog am ei luniau crefyddol. Yn eu plith yr oedd *The Light of the World* (1851–3), *The Scapegoat* (1854–6) a *The Finding of the Saviour in the Temple* (1854–60). Yr hyn sy'n eu nodweddu yw llawer o fanylder a lliwiau dwys.

Themâu Cristnogol sydd i'r lluniau hyn, ac maen nhw'n adlewyrchu diddordeb yr arlunydd ym mherson Iesu Grist. Yn wir, teithiodd Hunt i Israel a chodi ei dŷ ei hun yn Jerwsalem.

Ysbrydolwyd Hunt i beintio *The Light of the World* gan eiriau Iesu yn Llyfr y Datguddiad 3:20. Meddai Hunt: 'I painted the picture with what I thought, unworthy though I was, to be divine command, and not simply a good subject.' Mae'r darlun yn dangos Iesu'n curo ar ddrws na ellir ei agor ond o'r tu fewn.

Mae hyn yn ein hatgoffa o emyn John Henry Hughes (leuan o Leyn):

Wele wrth y drws yn curo,  
Iesu, tegwch nef a llawr;  
Clyw ei lais ac agor iddo,  
Paid ag oedi funud awr;  
Agor iddo,  
Mae ei ruddiau fel y wawr.



Llun: Wikimedia

Hanes y bwch dihangol yn Lefiticus 16:22 oedd sail *The Scapegoat*. Roedd Hunt am ddangos i'r Iddewon mai Iesu oedd y Meseia a ddiodefodd dros bechod dyn. Trefnodd i osod dyfyniadau ar y ffrâm o Lefiticus 16:22 ac Eseia 53:4.

Fe beintiodd Hunt *The Finding of the Saviour in the Temple* ar gownt hanes y plentyn Iesu yn y deml (Luc 2:48). Roedd yr un pwnc wedi denu sylw arlunydd eraill cyn Hunt, yn eu plith Albrecht Dürer a Paolo Veronese.

Gall Cristnogion deimlo'n anesmwyth o weld portreadau o Iesu Grist. Nid oes lluniau ohono'n bodoli, wrth gwrs, ar wahân i ddarluniau dychmygol ohono. Ac mae'r ail o'r Deg Gorchymyn yn gwahardd gwneud 'delw gerfiedig ar ffurf dim sydd yn y nefoedd uchod' (Exodus 20:4).

Ond naill ai oherwydd lluniau o'r fath, neu er gwaetha'r fath luniau, mae yna bobl sydd wedi rhoi eu hunain i Iesu Grist o weld portreadau ohono. Un enghraifft nodedig yw Nikolaus Ludwig Count von Zinzendorf (1700–60), sefydlydd y Morafiaid. Fe'i

newidiwyd i'r byw wrth edrych ar ddarlun Domenico Fetti o'r Iesu Croeshoeliedig (*Ecce Homo*) a'r arysgrif ar waelod y llun yn dweud: 'Hyn a ddiodefais drosot ti; beth a wnei di drosot i?'

Gwneir defnydd helaeth o bortreadau o fewn yr eglwysi Lladinaidd a Groegaidd fel ei gilydd. Er i wrthwynebiad godi o fewn yr eglwysi hyn yn erbyn y defnydd o eiconau, eto goroesi a wnânt. Y perygl, wrth gwrs, yw eu bod nhw'n gallu troi'n wrthrychau addoliad ynddynt eu hunain.

Mae celf yn gyfrwng gweledol i gyfleu gwirioneddau Cristnogol. Gwyddom am hanesion Beiblaidd ar ffenestri lliw adeiladau eglwysig ac am Feiblaidd sy'n frith o luniau'n adrodd eu storïau. Ond cofiwn mai cyfrwng ac nid diben yw lluniau i helpu Cristnogion yn eu pererindod ysbrydol yn y byd.

Peter Davies

(Gol. Daeth i'n sylw fod Peter Davies ar fin dechrau ar bennod newydd yn ei weinidogaeth. Dymunwn yn dda iddo wrth iddo fentro ar y llybr newydd hwn.)

## Salm fodern: Clodfori Duw yn y byd cyfoes

Haleliwia yw'n halaw lawen  
a'n mawl sy'n ddiderfyn mwy  
am mai'r Gair yw cywair ein cân.

O Dduw, Crëwr y ddaer,  
molwn Di, yn nhemlau'n dydd  
am y cymundeb sy'n rhan annatod o'th  
gyfathrebu  
â'th bobl oll ac â'th blant,  
y rhai sydd, a fydd ac a fu  
er creu y cread.

Dy lais oedd i'w glywed yn Eden,  
dy genadwri yn llef proffwydi y ffydd  
a'th wŷ yng nghanadaeth Iesu.

O alw apostolion  
galwyd mwy i glywed am y Mab  
ac i gyhoeddi'r newyddion am fendithion  
Oen Duw.

Trwy oesau dyn, troswyd Ei Air  
i ieithoedd a thafodieithoedd daer.

Wrth dy orsedd rhyfeddwn  
wrth i allu dyn droi'n wyrth a lledaenu  
neges yr Iesu  
drwy rwydwaith holl donfeddi di-drai  
radio.

Ond ti, O Dduw hael, sy'n derbyn clod dy  
ddeiliaid  
am ryfeddod pob gwybodaeth  
a'r deall sy'n allwedd  
i dystio mwy am dy destament  
trwy ddefnydd cynyddol o dechnoleg:  
y Beibl ar lein i bobl ar y lôn,  
adnod y dydd trwy drydariad ennyd wib,  
ac oedfa o oriel y picselau.

Molwn Di am yr amleddi a lwydda'n  
ddi-ffws ac yn ddi-ffael

i'n dwyn ynghyd mewn byd o boen;  
cyfryngau y curiadau cariadus  
a'n huna pan fo'r storm yn ein gwahanu,  
a'n cynnal yn ein galar.

A boed i ni, O Dad, adnabod yn ein dydd  
y rhai mewn ing a'u rhwymau'n angen  
a'u hwylo'n hualau  
a'u cyflwyno i'th neges yng nghanol eu  
gormes a'u gwae.  
Tro'i'n cred yn weithredoedd  
a thrwy hynny wireddu ewylllys ein Hathro  
annwyl,  
hyd oni welom wynfyd yn blodeuo o adfyd  
pobl daer.

Moli wnawn yn nhemlau'n hoes  
a Duw'n ein galw i'r dasg  
o ledaenu a phregethu'r Gair  
trwy bob dull, trwy bob dysg.

Haleliwia yw'n halaw lawen  
a'n mawl sy'n ddiderfyn mwy  
am mai'r Gair yw cywair ein cân.

Maenofferen

## Nid gwyddoniaeth yw Genesis, Penodau 1 a 2

Mae'n anhygoel, yn fy meddwl i, fod rhai pobl yn mynnu dehongli'r **ddwy stori** am y Creu ar ddechrau llyfr Genesis fel adroddiad gwyddonol am ddechreuadau'r byd a bywyd ar ein planed. Mae nifer o Gristnogion, hyd yn oed yn ein hoes wyddonol ni, yn dewis dehongli'r Beibl yn llythrennol.

Dwi'n hoff iawn o ddarllen y penodau hyfryd hyn yn Genesis ac yn gwerthfawrogi'r neges hollbwysig sydd ynnddynt. Dwi'n credu bod awduron y ddau adroddiad barddonol hyn yn ymdrechu'n ddiwyll i ddatgan yn eu hoes a'u hamser eu hunain mai Duw yw'r Alfa – yr UN a ddewisodd fod bywyd yn ei amrywiaeth rhyfeddol yn preswyllo ar y ddaear.

Dwi'n methu'n lân â deall sut mae llythrenolwyr sy'n mynnu dehongli'r ddwy bennod hyn yn wyddonol yn esbonio'r gwahaniaethau drwsyd rhwng Penodau 1 a 2. Nid yw'r awdur neu'r ddau awdur yn cytuno ar drefn ddyddiol yn eu datganiad:

Genesis 1 – dywedir bod Duw wedi creu creaduriaid byw yn y dyfroedd ac adar ar y **pumed dydd** ond nid yw dyn yn cael ei greu tan y **chweched dydd**.

Genesis 2 – rhoddir blaenoriaeth i greu dyn (Adda) **cyn creu'r anifeiliaid** ac yna dywedir bod Duw wedi creu cymar i Adda ar ôl creu'r anifeiliaid trwy gymryd asen a chnawd o gorff Adda.



Llun: David Becker, [Unsplash](#)

Sut yn y byd mawr y gellir dehongli hyn yn llythrennol ac yn wyddonol? Pa un sydd yn gywir?

Dryswch arall i'r llythrenolwyr y mae angen iddynt ei esbonio yw'r disgrifiad yn Genesis, Pennod 1, fod goleuni wedi ei greu ar y **dydd cyntaf**, ond doedd dim haul ar gael tan y **pedwerydd dydd**. Os yw'r llythrenolwyr yn dal i gadw at ddehongliad llythrennol a gwyddonol o Genesis, Pennod 1, sut mae

esbonio beth oedd ffynhonnell y goleuni ar y dydd cyntaf gan **nad oedd yr haul wedi ei greu am dridiau arall**? Gwyddom mai'r haul yw tarddiad y goleuni sydd yn goleuo a gwresogi ein planed.

Ni ddylai'r llythrenolwyr barhau i gamddefnyddio barddoniaeth penodau cyntaf Genesis yn ein hoes wyddonol sy'n llawer mwy goleuedig na'r hyn oedd yn ddealladwy filoedd o flynyddoedd yn ôl, mewn oes gyn-wyddonol.

Yn bersonol, dwi'n cydnabod ac yn parchu prif neges Genesis sy'n ein cymell i gydnabod pwy orchynnodd gychwyn y cosmos cymhleth hwn. Ni ddylem ddibrisio'r modd y mae gwyddonwyr ymroddedig (llawer ohonynt yn arddel y ffydd Gristnogol) o wahanol feysydd wedi ymchwilio'n ddyfal i gynnig dealltwriaeth lawer mwy derbyniol a rhesymegol ynghylch sut yr esblygodd bywyd o'r glec fawr filiynau o flynyddoedd yn ôl hyd ein dyddiau ni. Yr her i ni yw ceisio deall ymhellach sut daeth y byd a bywyd i fod.

Swyddogaeth gwyddoniaeth yw ceisio darganfod a dehongli **sut a phryd** y daeth y bydysawd i fod, tra mae Genesis yn ein cynorthwyo i sylweddoli a gwerthfawrogi **pam** y'n crewyd a **phwy** yw'r awdur.

Ymunwn â'r Salmydd a'r gwyddonydd i ganfod gogoniant Duw yn y sêr a'r planedau: "Y mae'r nefoedd yn datgan (adrodd) gogoniant Duw, a'r ffurfafen yn mynegi gwaith ei ddwylo." (Salm 19: 1)

Gwilym Wyn Roberts  
Caerdydd

## HYFFORDDIANT ARWEINWYR NEWYDD 2021 7 Medi ymlaen



hyfforddiant  
ebcpw  
training

**Mae'r cyrsiau Arweinwyr Newydd yn ailddechrau, ond ar ffurf newydd. Yn hytrach na chael wythnos gyfan o siaradwyr, bydd un sesiwn bob bore dydd Mawrth dros Zoom, o fis Medi ymlaen.**

### AR GYFER PWY?

Bydd y sesiynau yn addas ar gyfer gweithwyr EBC, a rhai sy'n cynorthwyo yng ngwaith yr eglwys yn lleol fel blaenor neu swyddog. Bydd yn dda eich gweld chi yno

- yn newydd-ddyfodiad neu'n wyneb cyfarwydd.
- Mae'r hyfforddiant yn ofynnol ar gyfer ymgeiswyr
- Cynghorir gweithwyr mewn rôl weinidogaethol i fynychu
- Gwahoddir blaenoriaid a rhai sy'n cynorthwyo yn eu heglwys lleol i fynychu

### RHAGLEN

Rydym yn dechrau ym mis Medi efo cyfres gan Wayne Adams ar fod yn arweinydd yn yr eglwys.

Os dymunwch ymuno efo un neu fwy o'r sesiynau, anfonwch ataf i gofrestru cyn diwedd Awst.

Cydllynydd Hyfforddiant

[delyth.oswy@ebcpw.cymru](mailto:delyth.oswy@ebcpw.cymru) 07986932261



## Y Silff Lyfrau



### Galwad i Genhadu

James H. Kroeger (gol.), *The Gift of Mission: Yesterday, Today, Tomorrow* (Maryknoll, Orbis Books / Caeredin, Alban Books Ltd, 2013; ISBN 9781626980129; clawr meddal; 236tt; pris £31.99)


Cyfrwl bwysig yw hon sy'n dathlu can mlynedd o weithgarwch cenhadol y Tadau a'r Brodyr o fudiad Maryknoll. Rhwng 1911 a 2011 gwasanaethodd offeiriadaid a lleianod Maryknoll yr Amerig yn gydwybodol ar sawl cyfandir. A daeth dau ddwsin o gyfranwyr ynghyd, dan olygyddiaeth James H. Kroeger, Athro Diwinyddiaeth Cenhadaeth yn Manila, i roi inni ddarlun cytbwys a theg o'r genhadaeth lwyddiannus.

Ceir pennod sylweddol gan yr Athro Robert Schreiter o dan y teitl, 'Dyfodol Cenhadaeth yn y Cysylltiadau Byd-eang'. Dywed, a'i dafod yn ei foch, nad y comisiwn a welir yn Mathew 28:19-20 yw'r un i'w groesawu ond yr un a gawn yn Luc 14:23, sef: 'Dos allan i'r ffyrdd ac i'r cloddiau, a myn ganddynt hwy ddod i mewn, fel y llenwir fy nhŷ'. Cenhadaeth sy'n dechrau lle rydym yn byw yw hon. Gwahodd pobl i ddod atom i'r oedfa yn y capel neu, yn ein dyddiau ni, i oedfa Zoom, yn hytrach na meddwl yn nhermau cenhadu ymhlith 'anwariaid' dramor.

Mae'n sicr gen i fod angen y ddwy alwad: yr alwad i groesi'r moroedd a'r alwad i chwilio a chroesawu ein cymdogion i ddod am dro i wleddoedd Seion. Fel y dywed Schreiter, cyfeirio mae'r gair *missio* at 'anfon allan'. Pwy yw'r un sy'n mynd allan? Wel, y Mab a'r Ysbryd Glân yn cael eu hanfon gan y Tad i'r byd, ac yna yn ein cerddeddiad a'n bywydau ni, y tystion.

Y genedl gyntaf i ddeall hyn oedd Portiwgal. O'r flwyddyn 1450 ymlaen, gwelodd y Pabyddion yn dda i weithredu ymhlith y cenedloedd - y *mission ad gentes* sy'n cael ei dathlu yn 2021.

Bu'n rhaid i Brotestaniaid aros cyn mentro i'r dasg genhadol gan nad oedd Martin Luther yn gweld diben o gwbl mewn anfon cenhadon i bellafoedd y byd. Roedd Ewrop yn ddigon o faes cenhadol, fel y mae Cymru heddiw, yn fwy na digon o 'faes



cenhadol' i'r Anglicaniaid, yr Annibynwyr, y Presbyteriaid, y Bedyddwyr a'r Wesleaid. Er i John Calfin weld potensial y genhadaeth dramor, aflwyddiannus fu'r ymdrech genhadol gyntaf i wlad Brasil.

Penderfynodd yr Eglwys Uniongred - Rwsia, Groeg, Rwmania - ohirio'r genhadaeth. Yn yr ugeinfed ganrif y gwelsom hwy'n galw i'r gorlan bobl sydd heb dderbyn y ffydd. Yn ôl Schreiter, bu'n rhaid i genadaethau'r canrifoedd weithredu ar gynfas globaleiddio. Nid ffenomen yr ugain mlynedd diwethaf yw hyn, ond yr un y mae'n rhaid inni weithredu ynddi ar hyd yr oesoedd.

Daeth hi'n haws o lawer i genhadu. Meddylier am John Davies o Faldwyn yn mynd mewn llong i Tahiti yn 1800, gan gymryd chwe mis i gyrraedd pen y daith. Heddiw gallwn hedfan yno mewn deuddeg awr. A gwelir mwy o ymfudo o un wlad i'r llall nag a welwyd erioed yn hanes yr eglwys. Ni fu'r lesu y tu allan i Balestina, ond fe grwydrodd Paul o amgylch Môr y Canoldir. Ac yn ein hoes ni, bu crwydro diderfyn yn enw'r Efengyl, llawer ohono'n ddi-fudd. Ond, at ei gilydd, codwyd pontydd a sefydlwyd sefydliadau i addysgu, iacháu a goleuo pobl oedd ar ddarvoud amdanynt. Daeth y gwaith â phobl ifanc, frwdfrydig, ynghyd â phobl ganol oed sy'n barod i roi tri mis o'u gyrfa i hyrwyddo prosiect dyngarol

gwerthfawr. Gwelsom bobl hŷn, oedd yn iach yn gorfforol, yn mynnu gweithredu, yn enw mudiadau dyngarol a chrefyddol, er mwyn dileu polio neu ryw afiechyd arall sy'n anharddu bywyd y difreintiedig.

Symudodd y pegwn Cristnogol, dyngarol yn gyfan gwbl o Ewrop i Asia ac Affrig yn bennaf. Mae gan Kenneth Thesing bennod orfoleddus ar effaith cenhadaeth Maryknoll yn Ethiopia, Swdan, Sambia, yr Aifft, Nigeria, Mozambique a Namibia. Mae'r eglwys yn yr Affrig yn esiampl i ni i gyd - yn llawn gobaith, gorfoledd a grym. Anodd yw amodau byw, ond o ran y ffydd y mae hi'n fendigedig. Nodwedd barhaol enwadau Cristnogol cyfandir yr Affrig yw dathlu. Mae'r adroddiad yn byrlymu o gân, o gysur, a sŵn drymiau a haleliwia. Gwir y dywedodd Thesing: 'While community is not lived perfectly in Africa, life is communal: it is shared and celebrated with song and dance, with conversation and food.'

Cyfandir Asia yw cartref tri o grefyddau mawr y byd: Hindŵaeth, Bwdhaeth ac Islam. Mae hanner Islamiadaid y byd yn byw ar gyfandir Asia. Fel y dywed y Golygydd, cyfrifoldeb Cristnogaeth yw dysgu mewn deialog â'r crefyddau eraill. Gall pob crefydd ddysgu llawer i Gristnogaeth a'i chyfoethogi, a rhaid dechrau'r ddeialog yn ddiymdroi. Rhaid canmol y Golygydd am gynnwys penodau blasus ar gyfraniad y cenhadon o fewn Tsieina ac o dan lywodraeth gomiwnyddol, fel yn Fietnam a Gogledd Corea. Daw pwysigrwydd De Corea i'r byd Cristnogol yn amlwg iawn, oherwydd yno y gwelir y grefydd gyfundrefnol ar ei gorau yn Asia. Mae'r ystadegau'n syfrdanol. Ni cheir pennod ar India, maes lle bu'r Cymry yn amlwg iawn rhwng 1840 ac 1970.

Wrth ddarllen *The Gift of Mission*, teimlwn fod angen inni edrych o'r newydd ar gyfraniad y Cymry i'r byd mawr fel cenhadon. Dyma ein cyfraniad pennaf fel cenedl, yn arbennig wrth ystyried pedair o wledydd y byd, sef Tsieina, India, Madagascar, Tahiti, heb anghofio cyfraniad llai ond nid heb ei arwyddocâd, yn Brasil, De'r Affrig, y Congo, Taiwan a Llydaw.

Byddem i gyd yn elwa o ddarllen ac ailddarllen *The Gift of Mission* er mwyn dysgu o'r newydd am ymdrech gofiadwy a gofnodir yn y gyfrol ddarllenadwy hon.

D Ben Rees  
Lerpwl

# Yr Ysbryd Glân 9 – R Tudur Jones

## Y maglau wedi'u torri



Dros yr haf fe fyddwn yn cyflwyno penodau o glasur R Tudur Jones, *Yr Ysbryd Glân*, a fu'n llyfr gosod i ddsbarthiadau oedolion yr Ysgol Sul ar gyfer 1972.

Gwelsom yn y penodau diwethaf, wrth ddadansoddi sancteiddio ac wrth astudio naw ffrwyth yr Ysbryd, fel y mae'r Ysbryd Glân yn ein gwisgo â'r nodweddion sy'n rhyngu bodd Duw. Pwysleisiwyd hefyd ein bod ninnau â'n rhan yn y gwaith. Mae sancteiddio yn golygu ar ein rhan ni frwydro ac ymddisgyblu. Y cwestiwn dwys sy'n codi i'r meddwl yn awr yw, a gyraeddwn byth ben y daith? A yw'n bosibl wedi'r llafur a'r lludded inni fod yn wrthodedig? Wedi inni unwaith weld y goleuni nefol, a allwn lithro'n ôl drachefn i'r tywyllwch eithaf?

Yn gynnar iawn yn hanes yr Eglwys aethpwyd ati i ddysgu fod llwyddiant y gwaith da'n dibynnu yn y diwedd ar ymdrechion dyn. Cydnabyddid fod dyn wedi'i waredu oddi wrth bechod gwreiddiol a'i felltith trwy waith achubol Crist yn unig. A sacrament bedydd oedd yn marcio'r ffin rhwng yr hen fywyd a'r newydd. Ond ar ôl i ddyd gael ei fedyddio, dibynnai ei iechyd ysbrydol wedyn ar ei weithredoedd da ei hun. Ceir y ddsygeidiaeth hon gan Irenaeus (bu farw tua 200 OC) a chan Cyprian, esgob Arthag (bu farw yn 258 OC). Er holl bwyslais Awstin Fawr (354–430) ar arfaeth Duw, dysgai yntau fod sefyllfa derfynol dyn gerbron Duw'n dibynnu ar y gweithredoedd cariadus y medrai eu cyflawni trwy'r gallu moesol a roddwyd iddo trwy ffydd. A dyma fan cychwyn yr athrawiaeth a ddaeth yn safonol yn yr Eglwys Gatholig Rufeinig. Yn od iawn, ceir ymhlith Protestaniaid modern hefyd athrawiaeth sy'n gwneud cyrraedd pen y daith yn gywaith cyfartal rhwng y credadun a Duw.

Os yw'r syniadau hyn yn gywir, rhaid cyfaddef fod llawer adnod yn y Testament Newydd yn mynd yn anesboniadwy. Trwy'r Testament Newydd rhed yr argyhoeddiad na all Duw fethu. Yn wir, oni all Duw ddwyn ei amcanion i ben, pa synnwyr sydd mewn rhoi'r enw 'Duw' arno? Anedlir yr un hyder gan Iesu Grist: 'ni chyfrgollant byth, ac ni ddwg neb hwynt allan o'm llaw i' (Ioan 10:28), meddai am ei braidd. Mae Paul yn ddiolch dros y Philipiaid, 'Gan fod yn hyderus yn hyn, y bydd i'r hwn a ddechreuodd ynoch waith da, ei orffen hyd dydd Iesu Grist' (1:6). Pedr yn yr un modd sy'n sôn am etholedigion Duw

fel 'y rhai trwy allu Duw ydych gadwedig trwy ffydd i iachawdwriaeth, parod i'w datguddio yn yr amser diwethaf' (1 Pedr 1:5).

Ategir yr argyhoeddiad hwn gan yr hyn a ddywed yr Ysgrhythar am agweddau eraill ar waith Duw. Rhoddodd Crist ei Hunan yn bridwerth dros ei bobl. A ellid dychmygu am bobl a brynwyd â'r fath lawn gwerthfawr (1 Pedr 1:19) yn llithro'n ôl i golledigaeth? Yr un modd gyda'r ethol. Os etholodd Duw ddynion i iachawdwriaeth, pa ddben oedd i'r ethol os collir y dynion hynny yn y diwedd? Esboniwyd eisoes mor ganolog ym meddwl yr Arglwydd Iesu oedd yr undeb rhyngddo a'i bobl. Ai undeb aneffeithiol wedi'r cwbl oedd hwn? Beth wedyn fyddai ystyr addewid fel 'Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tragwyddol?' (Ioan 3:36) Byddai'n rhaid hefyd dal nad oes fawr ddben i eiriolaeth Crist yn y nefoedd er bod Hebraid yn honni 'efe a ddichon hefyd yn gwbl iacháu y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw, gan ei fod ef yn byw bob amser i eiriol drostyt hwy' (7:25). Ac yn y maes yr ydym ni yn ei astudio ar hyn o bryd, byddai dal fod methiant yn bosibl i gredinwyr yn awgrymu fod yr Ysbryd Glân wedi dechrau gwaith da ynddynt ac yna wedi rhoi'r gorau iddo.

Er hynny, mae llawer o Gristnogion wedi teimlo anhawster mawr i dderbyn y ddsygeidiaeth hon. Honnir, er enghraifft, fod dysgeidiaeth fel hyn yn arwain i ddiogi moesol oherwydd, os yw Duw'n gwneud y cwbl, pa angen i ddyd ymagnio? Beth bynnag a wna, ni all fod yn ddim ond cadwedig yn y diwedd. Anhawster mwy efallai i bobl heddiw yw ei fod yn gwadu rhyddid dyn ac yn gwneud pyped ohono. Beth bynnag y mae'n ei ewyllysio, i'r nefoedd yr â. Wedyn, y mae nifer o rybuddion yn y Beibl yn erbyn gwrthgilio (Mathew 24:12; Colosiaid 1:23; Hebraid 2:1), neu'n annog pobl i ymagnio mewn ymsancteiddio (1 Corintiaid 9:27; 10:12). Dadleuir na byddai unrhyw alw am anogaethau fel hyn petai tynged dynion yn gwbl sicr. Am y rhesymau hyn, y mae mwyafrif Gristnogion y byd yn tueddu i wneud iachawdwriaeth derfynol yn amodol ar ymdrech dyn. Yng Nghymru bu'r Arminiaid yn egniol iawn yn dysgu i'r

perwyl hwn. A diau erbyn heddiw mai lleiafrif bychan o Gristnogion Cymru a fyddai'n gallu dweud gydag erthygl 34 yng Nghyffes Ffydd y Methodistiaid Calfinaidd am etholedigion Duw: 'ni allant syrthio yn hollol nac am byth o gyflwr o ras; ond cynhelir hwy yn sicr hyd y diwedd, a hwy a fyddant gadwedig.'

Ond y ffaith ddiymwad amdani yw fod y naill ochr a'r llall yn y ddaidl yn apelio at y Beibl. Ac nid yw'r Beibl fel petai'n ymwybodol o'r tyndra sy'n poeni diwinyddion. Y mae Paul hyd yn oed yn cyfuno'r gweithredu dwyfol a'r ymdrech dynol yn yr un frawddeg: 'gweithiwch allan eich iachawdwriaeth eich hunain trwy ofn a dychryn, Canys Duw yw yr hwn sydd yn gweithio ynoch' (Philipiaid 2:12,13). Y rheswm yn ddiau am hyn yw nad yw'r Beibl byth yn gweld gweithgarwch achubol Duw fel rhywbeth sy'n treisio dyn. 'Pwy a rydd ddim yn erbyn etholedigion Duw?' Wel, meddai'r Apostol, nid Duw oherwydd 'Duw yw yr hwn sydd yn cyfiawnhau' (Rhufeiniaid 8:33). Hynny yw, ar ochr dyn y mae Duw. O ras y mae'n gweithredu. Ac felly ni all yr Ysbryd Glân ysbeilio dyn o'i ryddid. I'r gwrthwyneb, ei adfer iddo y mae. Ni all gynnwys anfoesoldeb mewn dynion chwaith yn union oherwydd mai glanhau a phuro dynion a'u ywioacáu i ymlanhau ac i ymburo y mae. Yn nhrefn gras Duw y mae dyn yn cael ei gynnal i weithredu ac felly y dygir pechadur i ewyllysio yr hyn y mae Duw'n ei ewyllysio. A dyna pam y mae gennym sicrwydd na all dim yn y cread i gyd 'ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw, yr hwn sydd yng Nghrist Iesu ein Harglwydd' (Rhufeiniaid 8:39). Gallwn edrych ymlaen yn hyderus at y dydd pan fydd 'y maglau wedi'u torri, a'n traed yn gwbl rydd'.

### Darlleniadau:

Rhufeiniaid 8:29–39; Iago 2:17–26; 1 Pedr 1:13–16; 1 Corintiaid 9:23–7.

### Llyfrau:

I'r sawl sydd am ymgynabyddu â'r ddadl fawr rhwng yr Arminiaid a'r Calfiniaid yng Nghymru, y man cychwyn gorau yw clasur Owen Thomas, *Cofiant John Jones, Talsarn* (1874), 262–361, a Hugh Jones, *Hanes Wesleyaeth Gymreig* (1911), I, 182–225, 391–445. Ceir datganiad mwy elfennol o'r safbwynt Arminiaidd Wesleiaidd yn T. Jones-Humphreys, *Methodistiaeth Wesleyaidd Gymreig* (1900), pennod 2. Ceir y cyffesion Diwygiedig (Calfinaidd) yn Arthur Cochrane, *Reformed Confessions of the Sixteenth Century* (S.C.M., 1966). Ceir trafodaeth dreiddgar ar ganonau Synod Dort (a effeithiodd yn drwm ar Gyffes Westminster ac ar Gyffes Ffydd y Methodistiaid) yn (*golygwyd*) Peter Y. De Yong, *Crisis in the Reformed Churches* (Grand Rapids, 1968), pennod 9; Karl Barth, *The Holy Ghost and the Christian Life* (1938), pennod 2, am y berthynas rhwng yr Ysbryd ac ymdrechion dyn. Am grynodeb o'r safbwynt Calfinaidd o athrawiaeth Parhad mewn Gras, gweler Louis Berkhof, *Systematic Theology* (1966), 545–9. Ceir mynegiant meistradd o ddsygeidiaeth y Piwritaniaid yn nhraethawd Dr John Owen ar Barhad yn *Works*, cyfrol II. Eliseus Coles, *Traethawd Ymarferol am Benarglwyddiaeth Duw* (Lerpwl, 1842), 207–64, 'Am Barhad'.

## Fydd a Diwylliant

Mae sôn wedi bod yn ddiweddar am Kyffin Williams. Mae'n rhaid i mi gyfaddef mai ei bortreadau sydd orau gen i. Mi fuodd 'Miss Parry' yn syllu arna i o wal fy swyddfa yn y Llyfrgell Genedlaethol am flynyddoedd.

Dysgodd Kyffin i mi bwysigrwydd 'persbectif' i lwyddiant unrhyw ddarlun, ac i'w neges. Lle mae'r artist yn dewis gosod ei hun, lle mae o neu hi yn dewis gosod y testun ar y cyfnas.

Ymhlith yr holl bortreadau confensiynol o gyn-Lywyddion y Llyfrgell Genedlaethol, un sydd gan Kyffin. Darlun o Thomas Parry. Hwn yw fy hoff un i am ei fod yn dweud rhywbeth rhagor na chynnig adlewyrchiad realaidd o'r testun. Tra oedd 'Miss Parry' yn llenwi'r ffrâm, mae Thomas Parry wedi ei wasgu i un cornel, wedi crymu braidd. Dwi'm yn meddwl bod Syr Kyffin yn or-hoff o Syr Thomas.

Yn ddiweddar collais fy mam. Roedd hi mewn gwth o oedran ac wedi byw yn annibynnol i'r diwedd. Ond unwaith y bu Mam farw, bron yn union syth ar ôl iddi gymryd ei hanadl olaf, o'n i'n teimlo fy mhersbectif arni hi a'r byd yn newid.

Roedden ni wedi cydgerdded am dros hanner canrif a Mam wedi stopio'n stond, ac er gwaethaf fy awydd i aros gyda hi, roeddwn i'n gorfod cerdded ymlaen, ac o'r eiliad honno roedd fy mhersbectif yn newid. Roeddwn i'n edrych dros fy ysgwydd arni, yn ei gweld o hyd braich, ac yn mynd yn bellach ac ymhellach.

Mae'r un peth yn wir am fy milltir sgwâr. Mynd am dro ar hyd llwybrau nad oeddwn i

wedi bod ar eu hyd ers deugain mlynedd at adfail o'n i'n chwarae ynddo cyn oes iechyd a diogelwch, a chanfod mawredd lle bu mieri.

Mentro ar hyd ffordd braf a oedd yn llwybr cul, a arweinai ymhell o'r lôn fawr, a chanfod tŷ braf, adfail arall nad oedd fawr mwy na chwedl i mi yn blentyn: Hafod y Gors, mor bell o bobman. Ond eto, gweld trwy lygaid canol oed nad oedd y lle wastad wedi bod yn bell o bobman. Roedd rhwydwaith o ffyrdd wedi eu tagu gan fieri yn mynd o rywle a aeth yn angof i le arall a ddiflannodd. Prysurddeb nad oedd neb yn ei gofio bellach.

Roedd yno hefyd, o olwg y lôn fawr, ffyrdd newydd sbon, y tu ôl i ffensys praff, yn arwain o un felin drydan i'r llall.

Arwyddion bywyd, hen a newydd, na wyddwn i ddim amdano, filltir o nghartref. Ac o dro i dro, trwy fwch yn y clawdd, cip ar y pentref lle'm magwyd o gyfeiriad, o bersbectif, na welais i erioed mohono fo. Mor wahanol nes mod i'n gorfod adnabod capel, ysgol a chartref a throi map y cof i gyfateb.

Gwefr a gododd o golled oedd gweld a gwerthfawrogi'r cyfan o'r newydd, gweld colled a mawredd newydd.

Taflwyd y byd i gyd a'i ben i waered yn ddiweddar. Peidiwn â brysio i roi popeth yn ôl ar y wal lle'r oedd o cynt. Mae'n braf weithiau mwynhau persbectif gwahanol.

*Rocet Arwel Jones  
Aberystwyth*

## Emyn Sul yr Hinsawdd

O Luniwr y ddaear a harddwch ei thir a chynnyrch beunyddiol ei holl erwau ir, dy gread a'n geilw i newid ein ffyrdd a byw mewn ufudd-dod i ddeddfau byd gyrrdd.

Wrth weled fforestydd yn wenfflam dros ddaer, allyriant ein bywyd yn llygru yr aer, a chnydau yn crino, cydnabod a wnawn i'n fethu gofalu am d'eiddo yn iawn.

Ein chwant ni'r cyfoethog sy'n llethu dy fyd ac ochain yn uchel mae'r cread i gyd. Ni allwn ond gwrido ac edifarhau gan ddeisyf maddeuant am beri'r fath wae.

A'n daear ar drengi, a'n sbwriel yn staen dros donnau'r cefnforoedd, ymbiliwn o'th flaen mewn gweddi am gymorth wrth inni ddyheu am adfer dy gread i lendid ei greu.

*Eirian Dafydd*



## EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU

### Henaduriaeth Môn

### Swyddog Teuluol Cristnogol Henaduriaeth Môn

Mae Henaduriaeth Môn yn chwilio am berson egniol a brwdfrydig i weithio gydag eglwysi'r henaduriaeth i ddarparu gweinidogaeth i blant, ieuencid a theuluoedd yr ynys.

Oriau: 35 awr yr wythnos  
(neu oriau i'w trafod)  
Cytundeb: 3 blynedd yn y man cyntaf  
gyda'r 6 mis cyntaf yn  
gyfnod prawf  
Cyflog: Graddfa 20-24  
(£22,371-£24,477)  
a chyfle i ymuno â  
phensiwn EBC

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirid boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol ac iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.

Am fwy o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:

e-bost – Hedd Morgan,  
[hedd@ebcpcw.cymru](mailto:hedd@ebcpcw.cymru)  
ffôn – 07815960439

Dyddiad cau: 13 Medi 2021

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## O'th flaen, O Dduw, 'rwy'n dyfod ...

**Emyn 483** 'Mi glywaf dyner lais'

### Gweddi

O Dduw, yr hwn wyt yn trigo mewn goleuni anhygyrch, yr hwn a ddatguddiaist dy hun yn dy fab, lesu Grist, fel 'goleuni'r byd', caniatâ i ninnau yn awr adnabod gwaith dy Ysbryd Glân yn ein bywydau. Goleua ni a'n tywys i wir adnabyddiaeth ohonot ti dy hun, drwy dy Fab, er gogoniant i'r Tad. Amen.

### Cyflwyniad

Tybed, ers dyfodiad y Covid i'n plith, a ydych chi wedi cadw cofnod o faint o weithiau rydych chi wedi golchi eich dwylo gyda hylif diheintio?

Ymwneud â 'glendid' mae ein hadnodau heddiw. Nid hylendid mo hyn, ond y glendid moesol hwnnw sy'n caniatâu i ni sefyll ym mhresenoldeb Duw.

Gwelwn yn ein darlenniadau nad yr hyn sy'n dod o'r 'tu allan' i ni sy'n ein hatal rhag sefyll ym mhresenoldeb y Duw perffaith, glân, sy'n llywodraethu'r cyfanfyd. Yr hyn ydym, yr hyn sy'n swatio yn nirgelion ein calonnau, dyma sy'n halogi ein hymwneud ag ef go iawn.

### Darlleniad 1:

**Salm 15 - 'Pwy sy'n cael sefyll yn sancteiddrwydd Duw?'**

### Myfyrdod

Tybed, wedi i ni ddarllen y salm yn ofalus a phwyso ein hunain yn ei chlorian, a fedrwn ni ddweud yn onest bod ein hagweddau at gyfiawnder, at bobl eraill, at anrhydedd ein cymdogion, ein hagwedd at arian, yn tystiolaethu ein bod yn 'byw yn gywir'? Ac os nad ydym, yn ôl ein hasesiad ein hunain, wedi llwyddo i sefyll heb ein condemnio, sut fedrwn ni sefyll ym mhresenoldeb yr Arglwydd perffaith ei hun?

**Cyflwyniad i Marc 7:1-8, (9-13), 14-15, 21-3 - 'Yr hyn sy'n halogi'**

Yn ystod y degawdau a arweiniodd at ddyfodiad Iesu Grist i'r byd bu trafodaethau manwl rhwng arweinwyr crefyddol yr Iddewon am union natur bod yn 'bur', neu beth oedd ystyr bod yn sanctaidd i Dduw. Gorfodwyd y cwestiynau hyn arnynt wrth i'r ymerodraethau gwahanol a'u goresgynnodd fynnu eu bod, i wahanol raddau, yn cydymffurfio â gwerthoedd paganaidd y goresgynwyr.

Cwestiwn real iawn i arweinwyr crefyddol y genedl oedd y cwestiwn hwn felly: sut oedd

byw yn ffyddlon i'r Arglwydd? Onid oedd yr Arglwydd yn galw ar ei bobl i fyw bywydau sanctaidd, i fyw 'ar wahân' i werthoedd paganaidd eu goresgynwyr?

Enghraifft ddyddiol o'r heriau oedd yn eu hwynebu oedd sut roeddynt i gadw'r gyfraith am fwydydd 'glân' oedd yn cael eu caniatâu, neu sut roeddynt i beidio â bwyta bwydydd oedd yn cael eu gwahardd iddynt gan y gyfraith a etifeddwyd ganddynt? Y 'traddodiad' y cyfeirir ato yn yr adnodau yw ffrwyth y trafodaethau estynedig ymhlith athrawon tebyg i Rabi Hil-el a Shammai.

Yn ôl Joseffus (hanesydd Iddewig, tua 168 OC), ceisiodd Antiochus IV Epiphanes (175 CC) orfodi aml-dduwiau Groeg ar yr Iddewon. Cyfaddawdodd rhai â'r drefn newydd. Gwrthododd eraill. Ar un achlysur gwrthododd nifer o'r Iddewon aberthu moch ar allor y Deml yn Jerwsalem. Gwrthodasant hefyd fwyta cig moch oedd yn waharddedig iddynt. Cawsant eu lladd a'u hystyried yn ferthyrion i'w ffydd.

Roedd 'purdeb' felly yn arwydd crefyddol, yn wrthglawdd a ddiogelai arwahanrwydd eu diwylliant a'u cenedl.

### Darlleniad 2 Marc 7:1-6

Nid dadl am lanweithdra a phwysigrwydd golchi ein dwylo cyn eistedd i fwyta yw'r hyn a welwn yn Marc 7:2.

Er mwyn i genedl-ddynion fel ni ddeall y cyd-destun hanesyddol, mae Marc yn egluro pam mae'r ddefod o 'buro' yn bwysig i'r drafodaeth. Ymddangosai fod Iesu (a'i ddisgyblion) yn llac yn eu dehongliad o'r gyfraith am burdeb ac yn ddibris o'r traddodiad o ddehongli'r ysgrythurau. Roedd perygl, yng ngolwg y Phariseaid o leiaf, fod Iesu'n bylchu gwrthglawdd eu hunaniaeth grefyddol, foesol a chenedlaethol wrth anwybyddu'r traddodiad a etifeddwyd ganddynt.

### Darlleniad 3 Marc 7:6-8 (9-13)

Wrth ymateb i'r cwestiwn am burdeb defodol mae Iesu yn y lle cyntaf yn eu cyfeirio at yr ysgrythurau yr oedd eu 'traddodiad' yn ceisio'i ddehongli! Wedi dyfynnu geiriau'r proffwyd Ezeia (29:13 ymlaen), cynigiodd ddehongliad iddynt o'r adnodau crafog. Yn y lle cyntaf, cyhuddodd y Phariseaid 'pur' o fod yn 'rhagrithwyr', h.y. yn actorion, yn bobl oedd yn gwisgo mwgwd i chwarae rhan mewn drama. Nid realiti ond rhith oedd eu hymlyniad crefyddol. Ffeiriwyd ufudd-dod i Dduw

am 'draddodiad' oedd yn glastwreiddio'i alwad ar ei bobl. Yn wir, ffordd o osgoi gair Duw oedd dyrchafu'r 'traddodiad' oedd mor annwyl ganddynt (e.e. adn 9-13).

### Darlleniad 4 Marc 7:14-15

Mewn datganiad heriol, aeth Iesu ymhellach gan fynnu bod ganddo awdurdod uwchlaw geiriau'r hynafiaid a llunwyr y traddodiad. 'Gwrandewch arnaf,' meddai. 'Deallwch' arwyddocâd ei haerid a deallwch pa mor bellgyrhaeddol yw ei ddatganiad. Ac nid gwahoddiad llipa i bobl grefyddol sydd â diddordeb mewn trafodaeth ddiwinyddol o'r fath yw ei eiriau. Cawsom 'bawb' ein galw i'r ddealltwriaeth newydd hon.

Yn ôl Iesu, mae yna egwyddor syml, ond pellgyrhaeddol, y mae angen i ni ei deall. Nid o'r tu allan i ni yn bennaf y daw'r pethau sy'n ein halogi. Tarddu o'r llygredd sydd eisoes ynom y mae'r hyn sy'n ein halogi go iawn.

Os oedd y Phariseaid yn 'rhagrithwyr' ac yn 'ddiddeall', mynnodd y disgyblion, o'r neilltu, ei holi ymhellach am hyn. Ni all bwydydd ein halogi, meddai. Yn hytrach, yr hyn sy'n llifo o'n calonnau sy'n ein halogi go iawn. Yr hyn sydd ynom yw'r hyn sy'n cael ei amlygu yn ein meddyliau drwg a'n gweithredoedd (adn 21 ymlaen).

Diau fod y fath ddadansoddiad yr un mor dramgwyddus i'n cenedlaeth ni heddiw ag yr oedd ei eiriau i'w ddisgyblion pan glywsant hwy am y tro cyntaf.

Ond onid dyma realiti ein profiad bob dydd?

Mae Iesu eisoes wedi eu dysgu nad 'ar y cryfion ond ar y cleifion y mae angen meddyg: i alw pechaduriaid, nid rhai cyfiawn, yr wyf fi wedi dod' (Marc 2:17). Oni dderbyniwn y fath ddadansoddiad tywyll o'n cyflwr, ni fydd i ni ran yn Iesu Grist fel 'rhyddhâwr caethion, meddyg cleifion', fel ein prynwr a'n gwaredwr.

### Gweddi

Arglwydd Iesu Grist, cydnabyddwn nad yw pob cyfarfyddiad rhyngom yn gyfarfod hyfryd iawn. Rwy'ti'n dweud y gwir diadurn amdanom. Rwy'ti'n 'llawn gras a gwirionedd'. Ac er mor anghyfforddus yw dy ddadansoddiad gwir o'm cyflwr, diolch i ti am dy ras, dy faddeuant rhad yn Iesu Grist. Amen.

**Emyn 175** 'O'th flaen, O Dduw, 'rwy'n dyfod'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[watcyn@cennad.cymru](mailto:watcyn@cennad.cymru) | [hww@cennad.cymru](mailto:hww@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)

[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru) | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)